**LC463**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002**

Mae'r rhain yn rhagnodi ffioedd cofrestru a ffioedd blynyddol sy'n daladwy o dan Adran II o'r *Care Standards Act 2000* [Ddeddf Safonau Gofal 2000] a Rhan XA o'r *Children Act 1989* [Ddeddf Plant 1989], mewn perthynas â sefydliadau a chyfleusterau gofal cymdeithasol a gofal iechyd.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gyda'r Gweinidog o dan Reol Sefydlog 11.4. Mae'r Gweinidog wedi ymateb drwy lythyr dyddiedig 3 Mai 2002, ac amgaeir copi ohono gyda'r adroddiad hwn.

**Pwerau galluogi**

Tynnwyd sylw at y cyfeiriad at adran 79F o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a oedd, fe ymddengys, yn anghywir. Nid oes adran o'r fath yn y Ddeddf honno. Mae Adran 79(1) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 yn diwygio Deddf Plant 1989, drwy ychwanegu adran "79F" at ddeddf 1989. Cyfeirir yn gywir at adran 79F ar wahân fel adran o Ddeddf 1989.

Mae'r Gweinidog yn cydnabod mai gwall yw'r cyfeiriad at adran 79F o Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac mae'n nodi y bwriedir cywiro hyn pan gaiff y rheoliadau eu hargraffu.

Gwahoddir y Cynulliad, felly, i roi sylw arbennig i'r gwall drafftio hwn fel mater a ddylai gael ei gywiro yn y rheoliadau cyhoeddedig.

Yn ogystal, er nad oes pwynt adrodd yn deillio o hyn, mewn perthynas ag adran 79F lle mae'r cyfeiriad ati'n gywir, awgrymwyd y byddai wedi bod yn briodol nodi isadrannau (1) a (2) oherwydd ymddengys mai'r rhain yw unig ddarpariaethau'r adran honno sy'n gweithredu fel pwerau galluogi mewn perthynas â'r rheoliadau presennol.

**Rheoliad 3(1)**

O ystyried y ffaith bod paragraffau (6) a (7) yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â "registration fee" awgrymwyd y dylai geiriad agoriadol paragraff (1) fod wedi'i fynegi fel ei fod yn ddarostyngedig i "paragraphs (2) to (7)" yn hytrach na "paragraphs (2) to (5)".

Fel ymateb i hyn, mae'r Gweinidog yn argymell na ddylai paragraff (1) fod yn ddarostyngedig i baragraffau (6) a (7) am fod y paragraffau hynny'n ymwneud â ffioedd o dan Ran XA o Ddeddf Plant 1989 tra bod paragraff (1) yn gysylltiedig â ffioedd o dan Ran II o Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Y diffiniad o "registration fee" oedd yn peri pryder. Am fod y diffiniad o "registration fee" yn rheoliad 2(1) yn cynnwys y ffi sy'n daladwy o dan adran 79F(2)(b) o Ddeddf 1989 (sydd yn Rhan XA y Ddeddf honno), yr oedd modd camgymryd bod y "registration fee" y cyfeirir ati yn rheoliad 3(1) yn cynnwys y ffioedd sy'n daladwy o dan Ddeddf 1989. Gan mai dim ond gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd mewn perthynas â "an establishment" y mae rheoliad 3(1) gwerthfawrogir yn awr na ellir ei ddehongli i fod yn gysylltiedig â "registration fee" o dan Ran XA o Ddeddf 1989. Derbynnir felly nad oes diffyg yn rheoliad 3(1).

**Rheoliad 7(2)**

Gofynnwyd am eglurhad o "clinic home". Ymddengys mai "clinic" yn unig a ddylai fod yma.

Mae'r Gweinidog yn derbyn mai at "clinic" yn unig y dylid cyfeirio yma, ac mae'n nodi y bwriedir ei gywiro wrth argraffu. Gwahoddir y Cynulliad, felly, i roi sylw arbennig i'r diffyg hwn yn y drafft y dylid ei gywiro wrth ei argraffu.

**Rheoliad 7(5)(c)**

Holwyd ai "independent hospital or clinic" ddylai "home" fod.

Mae’r Gweinidog wedi cadarnhau bod yma ddiffyg ac y dylid newid “home” i “independent hospital or clinic” yn y rheoliadau cyhoeddedig. Gwahoddir y Cynulliad, felly, i roi sylw arbennig i’r diffyg hwn yn y drafft y dylid ei gywiro wrth ei argraffu.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Nodyn Esboniadol**

Gallai’r paragraff agoriadol fod wedi bod yn gliriach pe defnyddid “paid in respect of” yn hytrach na “paid by”.

**Dyddiad Gwneud**

Nodir bod y rheoliadau wedi’u gwneud ar 28 Mawrth 2002, ond nad yw’r dyddiad wedi’i gynnwys ar y copi a gyflwynwyd i’r Pwyllgor.

**Troednoediadau**

Dylai troednodyn (a) ar dudalen 2, mewn gwirionedd, dynnu sylw’r darllenydd at adran 5 y Ddeddf i gadarnhau mai cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r cyfeiriad at “the Assembly” yn adran 121(1).

Dylai troednodyn (b) ar dudalen 2 nodi gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau 1999 ac adran 120(2) o Ddeddf 2000 yn ogystal â diffiniadau o “prescribed” a “regulations” yn Neddf 1989, i egluro’r modd y mae’r swyddogaeth gwneud rheoliadau o dan y darpariaethau y cyfeirir atynt yn Neddf 1989 wedi’i throsglwyddo i’r Cynulliad.

Nid yw troednodyn (c) ar dudalen 3 wedi’i gwblhau eto.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

21 Mai 2002

**Jane Hutt AM**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Our ref: JH/01269/02

Mick Bates AM
Chair
Legislation Committee
The National Assembly for Wales
Cardiff bay
CF99 1NA

3 May 2002

Dear Mick,

**THE REGISRATION OF SOCIAL CARE AND INDEPENDENT HEALTH CARE (FEES) (WALES) REGULATIONS 2002 (LC 463)**

Thank you for your letter of 23 April about the above regulations, made under the executive procedure and considered by the Legislation Committee on 23 April.

I am grateful for the opportunity to respond to the drafting points raised by the Committee under Standing Order 11.5.

The reference to Section 79F of the Care Standards Act 2000 in the enabling powers is, indeed, an error. It is intended to correct this at the printing stage.

It is submitted that the opening words of regulation 3(1) should not be made subject to regulations 3(6) & (7). This is because (6) and (7) deal with fees under Part XA of the Children Act 1989 whereas paragraph (1) is concerned with fees under Part II of the Care Standards Act 2000. There is therefore no need for the provisions of regulation 3(1) to be made subject to 3(6) & (7), because 3(6) & (7) are not intended to modify 3(1).

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Regulation 7(2) - it is accepted that the reference to "clinic home" should have been a reference to "clinic". It is intended to correct this at the printing stage. This error was an oversight that was not picked up through the usual proof reading checks through time pressures.

Regulation 7(5)(c) - it is accepted that the reference to "home" should have been a reference to "independent hospital or clinic". It is intended to correct this at the printing stage. This error was an oversight that was not picked up through the usual proof reading checks through time pressures.

<u>General Observations</u>

These errors in the non-operative components of the instrument will be corrected at the printing stage.

I hope that the Legislation Committee find this explanation helpful.

Yours,

Jane